Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | D W Helliwell |
| P K Jones | M Sherwood | L V Walton |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rhian Millar | Cydlynydd Ymgynghoriadau |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Lee Wenham | Pennaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P B Smith a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 13 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 14 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 15 Y Diweddaraf am Gydgynhyrchu. (Llafar)

Darparodd y Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata gefndir i gyd-gynhyrchu a nododd ei fod wedi symud i'w faes ef yn ddiweddar. Roedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i gymeradwyo gan y cyngor ac roedd Bwrdd Cydraddoldeb Strategol yn cael ei sefydlu.

Roedd fframwaith Cyd-gynhyrchu wedi'i sefydlu i'w gymeradwyo, ond nodwyd na fu cynnydd sylweddol yn ystod pandemig COVID-19. Nodwyd hefyd fod adnoddau'n broblem yn ogystal â COVID-19. Byddai angen hyfforddiant i wella sgiliau adrannau wrth ddefnyddio cyd-gynhyrchu.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Defnyddio cyd-gynhyrchu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cynllun gweithredu drafft y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer cyd-gynhyrchu
- Amserlenni newydd ar gyfer fframwaith
- Sut beth yw cyd-gynhyrchu llawn o'i gymharu ag ymgynghori
- Dewis pryd i ddefnyddio cyd-gynhyrchu dros ddulliau ymgysylltu eraill
- Adnoddau a gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cyd-gynhyrchu
- Manteision posib o ran adnoddau sy'n deillio o gyd-gynhyrchu – cael pethau'n iawn y tro cyntaf
- Iaith cyd-gynhyrchu – gall bod yn nerfus o dermau leddfu rhai ofnau i ddefnyddio sgyrsiau
- Cyfyngiadau cyd-gynhyrchu – deddfwriaeth, amodau grant, cyfyngiadau amser ac ati.
- Gosod disgwyliadau – cyfleu'n glir yr elfennau y gellir eu newid a'r rhai na allant gael eu newid
- Rôl Aelodau'r Ward yn y broses cyd-gynhyrchu
- Gwersi a ddysgwyd o'r gwaith a wnaed yn ystod COVID-19 – enghreifftiau gwych o gydweithio

**Penderfynwyd:**

1) Dosbarthu'r Fframwaith Cyd-gynhyrchu i'r Pwyllgor
2) Trefnu i drafod fframwaith ac amserlenni cyd-gynhyrchu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 16 Yr Amgylchedd Naturiol.

Tynnodd y Cynghorydd Peter Jones sylw at rai meysydd sy'n edrych ar yr Amgylchedd Naturiol, megis Panel Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol, Grŵp Gweithredu ar Fioamrywiaeth Gorfforaethol a Newid yn yr Hinsawdd yn ogystal â llofnodi Siarter Newid yn yr Hinsawdd y cyngor yn fuan. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd unrhyw Bwyllgor Datblygu Polisi yn edrych ar yr Amgylchedd Naturiol.

Trafododd y Pwyllgor feysydd posib o'r Amgylchedd Naturiol y gellid edrych arnynt a oedd yn cynnwys; -

- Parhau i ddefnyddio glyffosad
- Y ddau argymhelliad a ddeilliodd o'r Ymchwiliad Craffu na chawsant eu derbyn – Roedd hyn yn cynnwys yr argymhellion ar gyfer dwy swydd newydd (Swyddog Adran 6 a swydd rhan-amser ar gyfer Ecolegydd Cynllunio)
- Edrych ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd – dysgu a chyfleu sut mae wedi ymgorffori gwell amddiffyniad i'r Amgylchedd Naturiol

Nododd y Cynghorydd Anderson fod Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi ac Isadeiledd wedi'i ailenwi'n Bwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd yng nghyfarfod y cyngor ar 3 Rhagfyr 2020.

**Penderfynwyd** mai Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd fydd yn ymdrin â phwnc yr Amgylchedd Naturiol.

## 17 Cynllun Gwaith 2020/21.

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2020/21.

Roedd cyd-gynhyrchu i'w ychwanegu at y Cynllun Gwaith ar gyfer mis Ionawr i drafod y fframwaith Cyd-gynhyrchu ar ôl iddo gael ei ddosbarthu.

Awgrymwyd hefyd y dylid trefnu i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Adfer ym mis Ionawr.

**Penderfynwyd** diweddaru'r cynllun gwaith ar gyfer 2020-21 yn unol â hyn.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.15 pm

**Cadeirydd**